

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Tachwedd 9fed, 2015**

Presennol: Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb ar noson dymhestlog a derbyniwyd ymddiheuriadau W D Williams.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 14, 2015.
5. Materion yn codi o'r Cofnodion sydd ddim ar yr Agenda
6. Adroddiad y Clerc:
 - i. Bu gannoedd o geisiadau am gymorth grant prosiect ar Raddfa fechan Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ond yn anffodus ni lwyddodd cais Llangywer.
 - ii. Anfonwyd caniatâd y Cyngor i gais Tŷ Newydd am fynediad i'r fynwent.
 - iii. Trefnwyd i waith tocio gwrych y fynwent gael ei wneud.
 - iv. Derbyniwyd ateb am y gwrych wrth y Clwb Hwyllo a'r cerrig o dan Fryntirion gan y Peiriannydd Ardal. Mae'r gwaith tocio wedi ei wneud erbyn hyn a chytunodd y Cyngorydd Alan Jones Evans i drafod mater cerrig yn dod i'r ffordd gyda'r Peiriannydd Ardal.
 - v. Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion yr Adran ail-gylchu wrth safle ailgylchu'r Glyn yn Llangywer a chytunwyd ar nifer o gamau geisio rhwystro pobl rhag llenwi'r biniau a fwriadwyd at gyfer defnydd rhai anheddau penodol yn unig. Diolchwyd i Alan Jones Evans ac i'r Swyddogion am roi sylw teilwng i'r mater.
7. Derbyniwyd adroddiad ar hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad 14/10/15.
8. Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd yn bennaf am yr angen i ddiogelu ffyrdd cefn gwlad yn arbennig mewn ardaloedd sy'n dioddef fwyaf o effaith tywydd rhewllyd. Teimla fod y ddarpariaeth biniau halen yn ddefnydd da o adnoddau'r Cyngor. Cymeradwywyd ei lythyr yn gwrthwynebu diddymu'r gwasanaeth cyflenwi biniau halen gan y byddai'n cael effaith annheg ac andwyol ar y sawl sy'n byw yng nghefn gwlad, a gan na all cynghorau cymuned gwledig fforddio'r gost o gyflenwi halen.
9. **Materion ariannol:**

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
Ystyriwyd y gwir wariant yn erbyn y Gyllideb a chafwyd y sefyllfa yn foddhaol.
Cyfrannwyd £136.50 i Gwmni Pum Plwy Penllyn i gefnogi g weithgareddau Lles yn yr Henblas.
10. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** oherwydd goblygiadau i ddefnyddwyr ffyrdd at Langywer a Rhosygwaliau, cytunwyd i anfon at Parc Cenedlaethol Eryri ac at Adran y Priffyrdd i ddatgan diddordeb wrth i gynlluniau cael eu paratoi. Mae Alan Jones Evans eisoes wedi gofyn am ymestyn y cyfyngiad teithio 40mya i ardal ehangagach wrth bont Mwngl y Llyn
11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am ddefnyddwyr yr Henblas ac am y cynlluniau datblygu sydd ar droed.

12. Gohebiaeth:

- 1) **Parc Cenedlaethol Eryri:** Nodwyd y gwahoddiad i Noson Agored yng Nghoed y Brenin.
- 2) **Gwynedd:**
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am Her Gwynedd a thrafodwyd ymateb ar lein.
 - ii. Ystyriwyd y gwahoddiad i brynu biniau halen (£281) ac ail-lenwi biniau (£156) ar ôl 1/4/16 a chytunwyd gyda llythyr y Cyngorydd Sir ar y mater. Cytunwyd i anfon at Un Llais Cymru i ofyn beth yw'r sefyllfa gyfreithiol am gynnal ffyrdd heblaw priffyrdd ac am oblygiadau diogelwch ac yswiriant pe byddai Cyngor Cymuned yn darparu'r gwasanaeth.
 - iii. Ymatebodd y Clerc i'r cais i gyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd gan dynnu sylw at y sawl sy'n gweryslla'n answyddogol ar lan Llyn Tegid yn yr haf ac yn gadael budreddi ar eu hôl.
- 3). **Un Llais Cymru:**

Ystyriwyd Agenda Cyfarfod Ardal nesaf Un Llais Cymru ac awgrymwyd fod y Cadeirydd yn codi mater y biniau halen.
- 4) **Eraill:** Nodwyd derbyn gwybodaeth am Rali GB.

Nodwyd derbyn llythyr gan y Ramblers.

Darllenwyd erthygl yn mynegi gwybodaeth nad oes gan Gynghorau Cymuned yng Nghymru gyfrifoldeb am fynwentydd sydd wedi eu cau .

Cadarnhawyd dyddiad y Cyfarfod nesaf: 11/1/16

Amser gorffen: 9.00pm